# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 29 Ionawr 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Cymunedau Difreintiedig

**C12 Peter Black:** Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn cydlynu polisi ar gymunedau difreintiedig? (OAQ15257)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Sefydlwyd bwrdd polisi adfywio cymunedau a chynhwysiant cymdeithasol, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Bydd y bwrdd yn gyrru agenda cynhwysiant cymdeithasol y Cynulliad yn ei blaen ac yn cynghori ynglŷn â chyfeiriad strategol rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Mae'r bwrdd yn dod â'r prif chwaraewyr o lefel uwch y Cynulliad ac ystod o gyrff eraill ledled Cymru at ei gilydd.

### Tystysgrif Sgiliau Adeiladu

**C13 Brian Gibbons:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y dystysgrif sgiliau adeiladu y bydd yn ofynnol i gontractwyr eu cael cyn gweithio ar brosiectau yn y sector cyhoeddus ar draws meysydd cyfrifoldeb y Cynulliad? (OAQ15260)

**Prif Weinidog Cymru:** Rhyw basport sgiliau yw'r dystysgrif. Fe'i rhoddir i unigolion yn ôl cynllun ardystio sgiliau adeiladu i'r DU gyfan a redir dros y diwydiant gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu ac sy'n dangos bod lefel benodol o fedrau a gallu adeiladau wedi'i chyrraedd. Nid yw'n gynllun gorfodol ac nid yw'r Cynulliad yn mynnu bod y sawl sy'n gweithio ar brosiectau a reolir ganddo wedi ennill y dystysgrif.

### Lleoliad Swyddi'r Cynulliad

**C14 Peter Rogers:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Parhaol ynghylch yr adolygiad o leoliad swyddi'r Cynulliad? (OAQ15269)

**Prif Weinidog Cymru:** Trafodaf lawer mater gwahanol â'r Ysgrifennydd Parhaol yn rheolaidd. Mae'r adolygiad cyfredol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar leoliadau am swyddfeydd y tu allan i Gaerdydd ymhlith y materion a drafodir yn rheolaidd.

### Dyrannu Cymorth Ariannol

**C15 Glyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar bwysigrwydd cydnabod poblogaeth wasgaredig mewn unrhyw fformiwla ar gyfer dyrannu cymorth ariannol i wahanol rannau o Gymru? (OAQ15266)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae poblogaeth wasgaredig yn elfen sy'n cael ei chynnwys mewn unrhyw fformiwla a ddefnyddir i ddyrannu cymorth ariannol lle ceir costau ychwanegol sy'n deillio o ddarparu gwasanaethau i boblogaethau sydd yn wasgaredig iawn. Cafodd hynny ei ystyried yn fanwl yn y setliad i lywodraeth leol a'r fformiwla iechyd.